Gwybodaeth gefndir i athrawon

Sylwch fod y sleidiau cychwynnol am y tair gwlad sy'n cael sylw yn yr adnodd *Hawliau Plant* yn ceisio rhoi delwedd weledol o'r wlad i'r dysgwyr, ond mae diffyg gofod o fewn yr adnodd yn cyfyngu ar yr hyn y gallwn ei bortreadu. Pa fwyaf cytbwys y darlun y gallwch ei gyflwyno o'r wlad – er enghraifft, drwy bwysleisio nad yw pob rhan o Sierra Leone wedi'i heffeithio gan wrthdaro – gorau oll. Os oes gennych amser, awgrymwn eich bod yn rhoi cyfle i'r dysgwyr chwilio am amrywiol luniau o'r gwledydd, yn ddinasoedd ac ardaloedd cefn gwlad.

Hawliau dynol yn Syria

Dechreuodd y gwrthdaro ar raddfa eang yn Syria ym mis Mawrth 2011 ac mae wedi cael effaith enfawr ar bobl yr ardal. Erbyn Mehefin 2015, roedd angen cymorth dyngarol ar 12.2 miliwn o bobl o fewn Syria, nifer sydd ddeuddeg gwaith yn fwy na'r hyn ydoedd yn 2011. Gorfodwyd i 7.6 miliwn o Syriaid adael eu cartrefi a ffodd pedair miliwn fel ffoaduriaid i wledydd cyfagos. Ychwanegodd y niferoedd enfawr o ffoaduriaid a gyrhaeddodd Lebanon a gwlad Iorddonen yn sylweddol at boblogaeth fach y ddwy wlad hynny, gan fygwth trefn gymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus oedd eisoes dan bwysau. Mae nifer fawr o ffoaduriaid hefyd wedi symud i Dwrci, Irac a gwledydd tu hwnt iddynt. Erbyn canol 2015 Syria oedd lleoliad yr argyfwng mwyaf yn y byd o ran pobl oedd wedi colli eu cartrefi, gyda dangosyddion yn awgrymu y byddai nifer y bobl oedd wedi'u dadleoli yn parhau i gynyddu. Mae datblygiad Syria wedi llithro'n ôl bedwar degawd, bron: er dechrau'r argyfwng, amcangyfrifir bod disgwyliad oes wedi lleihau o tua 13 blynedd ac mae presenoldeb mewn ysgolion wedi gostwng dros 50%. Amcangyfrifir bod economi Syria wedi crebachu 40% er 2011, gan olygu bod llawer o Syriaid wedi colli eu modd o ennill bywoliaeth.*

*Ffynhonnell: Swyddfa Cydlynu Materion Dyngarol (Office for the Coordination of Humanitarian Affairs).

Hawliau dynol yn Uganda

Dioddefodd pobl Uganda lawer o gamdriniaeth o ran eu hawliau dynol yn ystod y 1970au a'r 1980au, yn gyntaf dan unbennaeth Idi Amin, ac yna dan Milton Obote. Cafodd hyd at hanner miliwn o bobl eu lladd mewn trais a gefnogwyd gan y wladwriaeth.*

Roedd pethau'n well o safbwynt hawliau dynol yn ystod arlywyddiaeth fwy democrataidd Yoweri Museveni o 1986 ymlaen. Fodd bynnag, dechreuodd Byddin Gwrthsafiad yr Arglwydd (Lord's Resistance Army), dan arweiniad Joseph Kony, weithredu yng ngogledd Uganda yn y 1990au a chyflawnodd lawer o erchyllterau. Herwgipiodd y 'Fyddin' nifer fawr o blant i'w gwneud yn filwyr plant a chaethweision rhyw, a lladdwyd rhai o bobl gogledd Uganda – fel rhieni Charles. Pan oedd y gwrthdaro ar ei anterth, bu raid i ddwy filiwn o bobl, bron, adael eu cartrefi.*

Yn 2005–6 gorfodwyd Byddin Gwrthsafiad yr Arglwydd allan o Uganda. Mae rhai o'r aelodau – llawer ohonynt ar restr y Llys Troseddol Rhyngwladol o'r rhai a amheuir o gyflawni troseddau rhyfel – wedi mynd i ymladd mewn gwrthdaro mewn gwledydd cyfagos, er enghraifft De Swdan, Gweriniaeth Canolbarth Affrica a Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo. Mae eraill wedi gadael y fyddin hon a thrwy Gomisiwn Amnest Uganda wedi cael eu hadfer i'r gymdeithas.

Bellach mae pobl gogledd Uganda yn wynebu heriau newydd gyda chymunedau'n dechrau mynd yn ôl i'w cartrefi mewn pentrefi a esgeuluswyd; ychydig yn unig o wasanaethau sylfaenol, megis dŵr glân a charthffosiaeth, sydd ar gael yno. Mae'r gwaith o ailadeiladu bywydau mewn cymunedau a greithiwyd gan flynyddoedd o herwgipio ac ymosodiadau yn debyg o gymryd blynyddoedd lawer.

*Ffynhonnell: gwefan newyddion y BBC: http://www.bbc.co.uk/news/world-africa-14107906.

Yr hawl i iechyd da yn Sierra Leone

Yn 2014–15, roedd Sierra Leone yn amlwg yn y newyddion ledled y byd yn sgil yr argyfwng Ebola. Gwendidau yn system iechyd Sierra Leone o ganlyniad i dlodi tymor hir a rhyfel cartref creulon rhwng 1991 a 2002 oedd y rheswm pam y lledaenodd y clefyd mor gyflym. Difethwyd cymunedau gan y rhyfel, ac achoswyd difrod difrifol i economi a gwasanaethau cyhoeddus Sierra Leone – yn cynnwys y gwasanaeth iechyd – gan fygwth hawl plant i iechyd da.

Arweiniodd y rhyfel cartref nid yn unig at ddifrodi a dinistrio gwasanaethau iechyd, dŵr a charthffosiaeth, ond hefyd at broblemau sylweddol gyda dŵr a charthffosiaeth mewn rhannau helaeth o Freetown, prifddinas Sierra Leone. Ceisiodd nifer mawr o bobl oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig ffoi rhag effeithiau'r rhyfel drwy symud i'r brifddinas a chanlyniad y mudo sydyn hwn yw fod 70% o Freetown bellach yn slym dinesig, digynllun, gydag ychydig yn unig o ddŵr glân a chyfleusterau carthffosiaeth gwael.

Mae gwasanaeth iechyd gwan Sierra Leone yn golygu mai ychydig sy'n gallu cael mynediad at ddŵr glân; yn 2010 dim ond 55% o boblogaeth Sierra Leone oedd â dŵr glân. Mae'r sefyllfa'n fwy heriol byth o ran glanweithdra. Yn 2010, dim ond ar gyfer 13% o bobl Sierra Leone yr oedd toiled iawn ar gael.

Hyd yn oed cyn Ebola, roedd afiechydon eraill fel colera yn fygythiad sylweddol yn Sierra Leone. Yn 2012, gwelwyd y nifer mwyaf o achosion o golera yn y wlad ers dros ddeugain mlynedd. Erbyn diwedd Medi, roedd 20,500 o achosion wedi'u cofnodi, â 270 o farwolaethau. Oherwydd carthffosiaeth a rheoli gwastraff gwael, diffyg dŵr yfed diogel, adnoddau dŵr wedi'u halogi a'r ffaith fod pobl yn symud o amgylch y wlad, cafwyd achosion o golera ym mhob ardal, ac eithrio un. Mewn ymateb i'r argyfwng colera, anogodd Oxfam ddisgyblion i sefydlu clybiau iechyd fel yr un yn Ysgol Gynradd Gymunedol Pamaronko er mwyn rhannu arferion hylendid da, yn yr ysgol a hefyd yn y gymuned ehangach.

Fodd bynnag, yn 2014, bu raid cau ysgolion Sierra Leone yn sgil yr argyfwng Ebola, gan olygu nid yn unig nad oedd y disgyblion yn cael cyfle i gael addysg, ond hefyd rwystro ysgolion rhag rhannu negeseuon ynghylch sut i leihau'r perygl o gael afiechydon fel Ebola a cholera. Ciliodd yr argyfwng yn 2015, diolch i waith caled ac aberth ar ran llawer o weithwyr iechyd ac aelodau o'r gymuned yn Sierra Leone. Roedden nhw wedi cael cymorth gan lawer o elusennau a llywodraethau rhyngwladol. Cyfrannodd Oxfam drwy ddarparu cyflenwad dŵr mewn canolfannau triniaeth ac ynysu rhag heintiau, cyfleusterau golchi dwylo mewn mannau cymunedol, pecynnau hylendid a dillad amddiffynnol i Weithwyr Iechyd Cymunedol oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cleifion a thimau claddu, a hyfforddiant i Weithwyr Iechyd Cymunedol. Cryfhaodd Oxfam hefyd ei ymgyrch i roi gwybodaeth gyhoeddus gyffredinol drwy gyfrwng radio, byrddau hysbysebu a negeseuon testun ynghylch sut y gallai pobl eu hamddiffyn eu hunain rhag dal yr haint.

Ar ôl bod ar gau am naw mis, o'r diwedd yr oedd hi'n bosib i ysgolion ailagor ym mis Ebrill 2015. Mae clybiau iechyd ysgol fel yr un yn Ysgol Gynradd Gymunedol Pamaronko yn dal cyn bwysiced ag erioed gan fod rhannu arferion hylendid da yn parhau'n flaenoriaeth i gymunedau yn Sierra Leone i ddiwallu hawl plant i iechyd da.

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol a'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.